| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER BLWYDDYN SIROL 2010/11** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **GOFYNNOL GAN Y CYFANSODDIAD** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CADEIRYDD Y PWYLLGOR** |
| **GWEITHREDU:** | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

**Cyfarfodydd**

Yn ystod y flwyddyn sirol, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod saith gwaith - dau gyfarfod i ethol Cadeiryddion a phump o gyfarfodydd rheolaidd. Etholwyd y Cynghorydd Cliff Everett fel Cadeirydd ar ddechrau'r flwyddyn ac, ar ôl iddo ymuno â'r Pwyllgor Gwaith, etholwyd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn Gadeirydd. Cadeiriwyd dau gyfarfod yn ystod y flwyddyn gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones, yr Is-Gadeirydd.

Dilynodd y cyfarfodydd rheolaidd y calendar ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a ddatblygwyd yn 2009-10 ac ymysg busnes rheolaidd y Pwyllgor rhoddodd sylw i: adroddiadau gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol, datganiad cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd allanol arno. Adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys am y tro cyntaf, ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn iddo. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar achos o Dorri Rheolau Diogelwch Gwybodaeth a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn.

Bu oedi gyda'r gwaith o gwblhau'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2009-10 fel nad oedd y Pwyllgor yn gallu ei gymeradwyo erbyn y dyddiad cau o 30 Medi am y tro cyntaf. Cymeradwywyd y datganiad cyfrifon yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

**Datganiad Llywodraethu**

Am y tro cyntaf, mabwysiadodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2009-10 a oedd yn disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol. Gwnaed hynny cyn iddo ddod yn ofyn statudol.

Fodd bynnag, roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu'r gwendidau yr adroddwyd arnynt yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009 ac roedd i raddau helaeth yn adroddiad gwaith ar y Cynllun Adfer.

**Gwella'r Pwyllgor Archwilio**

Mae'r prosiect hwn, sy'n rhan o Gynllun Adfer yr Awdurdod, yn parhau gyda gwaith y cychwynnwyd arno yn ystod 2009-10 i ddatblygu rôl y Pwyllgor Archwilio. Roedd y Pwyllgor wedi gwneud hunanasesiad gan ddefnyddio rhestr wirio o ganllawiau CIPFA ar bwyllgorau archwilio mewn llywodraeth leol, ac roedd canlyniad yr asesiad a wnaed yn 2009 wedi arwain y rhaglen a'r camau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn.


Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio, wedi'i gysylltu gyda'u cyfrifoldebau a'r rhaglen datblygu aelodau ar:


- Y Datganiad Cyfrifon
- Rheoli Risg
- Rheoli'r Trysorlys

Bu nifer dda yn y digwyddiadau hyfforddi hyn ac fe'i croesawyd gan aelodau.

Gwnaed newidiadau hefyd i arddull cyfarfodydd ac adroddiadau mewn ymateb i atborth o'r broses hunanasesu.

Cynhaliwyd hunanasesiad ychwanegol yn Chwefror 2011 lle adolygwyd cynnydd yn erbyn yr un rhestr wirio CIPFA. Fel mae'r siartiau pry cop isod yn dangos, gwelwyd bod peth cynnydd wedi'i wneud ers yr asesiad cynharach:




**Cynlluniau i'r Dyfodol**

Yn ogystal â'i fusnes rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn parhau gyda'i raglen ddatblygu gan ddefnyddio'r canlyniadau o'r hunanasesiad. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ddigwyddiadau hyfforddi wedi'u teilwrio i'w weithgareddau yn 2011-12.

Mae Mesur Llywodraeth Leol newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys gofynion newydd i wneud Pwyllgorau Archwilio yn orfodol yn y prif awdurdodau lleol. Ychydig iawn o newid i rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor fydd angen ei wneud yn Ynys Môn gan fod yr Awdurdod wedi bod yn rhedeg y Pwyllgor Archwilio yn union ag arferion gorau ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, un newid y mae'r Mesur yn ei gyflwyno yw'r angen i gyfethol aelodau ar y Pwyllgor nad ydynt yn Gynghorwyr. Bydd angen rhoi rhagor o sylw i hyn yn y flwyddyn i ddod.

**CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES**

**CADEIRYDD** **4 MAI 2011**